## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Joe Hale | Adran Etholiadol: | St Thomas |
|---|---|---|---|

### Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Roedd y llynedd yn flwyddyn brysur iawn i mi.

Euthum i gymorthfeydd a chyfarfodydd preswylwyr rheolaidd yn ogystal â chyfarfodydd Cymunedau'n Gyntaf.

Roeddwn (ar adeg llunio hwn) ac yn dal i fod yn aelod o Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ac yn llywodraethwr awdurdod lleol yn Ysgol Gymunedol St Thomas ac Ysgol Gynradd Danygraig.

### Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgorau:

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau | 6 / 8 | 75% |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 5 / 7 | 71% |
| Pwyllgor Cynghori’r Cabinet ar Fusnes a Gweinyddu | 6 / 7 | 86% |
| Y Cyngor | 14 / 17 | 82% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 5 / 7 | 71% |
| Panel Llywodraethwyr yr All | 7 / 8 | 88% |
| Pwyllgor Hawliau Tramwy a Thir Comin | 0 / 5 | 0 % |
| **CYFFREDINOL** | **43 / 59** | **73%** |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarfodydd Craffu | | |
| Panel Ymchwilio Craffu Diwylliant Corfforaethol | 1 / 7 | 14% |
| Plant sy’n Derbyn Gofal | 1 / 1 | 100% |
| Panel Perfformiad Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid | 10 / 14 | 71% |
| **CYFFREDINOL** | **12 / 22** | **55%** |

### Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Ar ran y ward, euthum i gyfarfodydd Awdurdod Iechyd Porthladd Ardal Abertawe ac, ar adeg llunio hwn, fi oedd yr is-gadeirydd.

Roeddwn, ac rwy'n dal i fod, yn aelod o'r Pwyllgor Rheoli Gwastraff Safle Tirlenwi Tir John.

Ynghyd â'm cydweithiwr ward, aethom i gyfarfodydd llywodraethwyr ysgol rheolaidd yn ysgolion Danygraig a St Thomas.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Cefnogasom lawer o weithgareddau ward megis gweddnewid Parc Polly ym Mharc Grenfell a oedd yn llwyddiannus iawn.

Roedd grŵp gwir ysbrydolus o deuluoedd â phlant ifanc eisiau man gwell i'w plant chwarae gan fod eu parc hwy 'wedi blino' ac wedi dirywio a, chyda'r sefyllfa economaidd bresennol, sylweddolasant yn gyflym iawn nad oedd gan y cyngor lawer o arian i'w wario ar yr adnodd hwn.

Mae'r man wedi'i weddnewid yn llwyr ac, er nad yw wedi'i orffen, bydd yn ased enfawr i'n cymuned.

Roeddem hefyd yn ymateb i bryderon preswylwyr am fynediad i Fynwent Danygraig o Bort Tennant a threfnasom i'r fynedfa ddwyreiniol gael ei hailwynebu.

Gyda help y NEAT, fe wnaethom helpu i weddnewid man y tu allan i Ganolfan Gymunedol Ashlands ym Mhort Tennant. Yn anffodus, cafodd llawer o'r gwaith da ei ddwyn gan ladron.

Cynaliasom gyfarfodydd i drafod cap ar dai amlbreswyl (HMO) a'u dilyn trwy Lywodraeth Cymru.

Cynaliasom gyfarfodydd rheolaidd â datblygwyr y brifysgol a'r cwmni Morlyn Llanw.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

05/03/2015 - Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl
05/08/2014 - Cynnwys y Cyhoedd

Rwy'n credu bod fy mlynyddoedd o weithio fel cynrychiolydd undeb llafur wedi rhoi'r ddealltwriaeth a synnwyr cyffredin angenrheidiol i'm cynorthwyo yn fy rôl fel Cynghorydd.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwyf wedi mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol amrywiol a chefnogi digwyddiadau lleol a dylwn sôn yn arbennig am yr holl eglwysi yn yr ardal a'r digwyddiadau a'r gwaith da maent yn ei wneud - Eglwys Bae Fabian, St Thomas, Eglwys San Steffan ac Eglwys yr Holl Saint, Cilfái.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 31.05.15 |